321

# MARWOLAETH
# YMHERAWDWR RWSSIA

**Yr hwn a fu farw Dydd Gwener,
Mawrth yr 2fed, 1855.**

YN NGHYD A'R HOLL DRIGOLION AETHANT
I'R FARN O'I HERWYDD EF YN YR HOLL FATELION
DIWEDDAF



MAB Y DIWEDDAR YMHERAWDWR RWSSIA.

---

*Ganwyd Ymherawdwr Rwssia ar y 6ed o Gorphenaf,* 1795,
*ac esgynodd i'r Orsedd ar y* 1*af o Rhagfyr,* 1825.

---

Cenir ar y mesur—"Person Paris."

---

Yn awr, fy holl gyfeillion,
  Y Cymry glewion glan,
Oblegyd hyn o newydd sydd,
  Y gwnaethum hyn o gân;
Bu Emprwr Nicholas am hir dro
  Yn elyn creulon croch;
O'i herwydd gorfu i Frydain Fawr,
  Ail godi'r faner goch.

Yr ail o Fawrth diweddaf,
  Un mil wyth cant a phump
A deg a deugain meddaf,
  Yw oedran Brenin nef,
Tristawyd rhai o'i deulu,

Oedd gynt yn eithaf llon,
Trwy ddwyn Ymherawdwr Rwssia
Oddiar y ddaear hon.

'R ugainfed dydd o Fawrth diweddaf,
'Dyw'r hanes fawr o bwys,
Y rhoddwyd Nicholas Rwssia,
I orwedd dan y gwys;
'N mynwent St. Petersburg,
Mae'i gorph yn llwch y llawr
I aros dydd y ddedryd,
O flaen y barnwr mawr.

O'i achos erbyn heddyw,
Mae hyn yn destyn dwys,
Mae triugain mil o ddynion
Yn gorwedd dan y gwys;
Yn Alma a Silistria
Y bu cyflafan fawr,
A bechgyn glân a laddwyd,
A'i gwaed yn lliwio'r llawr.

Gadawodd llawer bachgen glân
Ei dirion fam a'i dad,
Heb byth ddychwelyd eto'n ol,
I'w enedigol wlad.
Dros driugain mîl, rifedi maith,
Dros foroedd maith aeth llu,
I wlad Rwssia i gwrdd a'u bedd,
Ar dueddau y mor du.

Ni gawsom fyw mewn heddwch cu,
Fel gwyddoch hyny i gyd,
Blodeuo yr ydoedd trefydd cain,
A gwledydd Brydain glyd;
Ni welodd ieuenctyd Cymru ddim
O'r Rhyfel chwerw i'w rhan,
Ac hefyd listio Milisia pur,
A'r Morwyr yn mhob man.

Yn Rwssia draw mae Nicholas fu,
Yn dawel heddyw'n wir,
Cymeryd gwlad y Twrcs i gyd
Oedd bwriad Nic mae'n glir;

CC35 732074

Pe cawsai Nicholas ffordd yn rhydd
I enill gwledydd glân,
Fe fyn'sai holl gyfandir clir,
Cyn hyn, yn ddiwahan.

Yn mrwydyr Alma, darfu Ffrainc
A Phrydain enill bri;
Gwnaent ddringo i ben y mynydd mawr
Rhoed gwaed i'r llawr yn lli,
Gwyr Lloegr aeth trwy'r mwg a,r tân,
Dros erchyll greigiau serth,
A llywydd Rwssia welai'n wir,
Nad oedd ei wyr fawr werth.

'Rol cyraedd pen y mynydd mawr,
Bu brwydr ddirfawr ddu,
Gwyr Frainc a Lloegr gawsant nerth
Hwy ladd'sant anferth lu,
Cymerwyd carcharorion rai,
A'r lleill ddiangai yn ddwys,
'Roedd cyrff a'r lawr dros filldir fawr,
Mae'n beth o ddirfawr bwys.

Drachefn daeth triugain mil a deg,
O Rwssiaid gwnaent eu rhan,
Yn erbyn pedair mil ar ddeg
O'n gwyr yn Inkermann;
Er hyn gwyr Ffrainc a Lloegr aeth
A'r fuddugoliaeth fawr,—
Gwnaent dori o'r Rwssiaid bymtheng mil,
Ar faes yn llwyr i'r llawr.

Yn mrwydr Balaclava bu
Ymladdfa ofnadwy'n wir,
Pan ga'dd y Rwssiaid ddyrnod du;
Gwneir cof am hyny yn hir,
Mae ganddynt fwy dair gwaith o wyr
Bob brwydr ddaw ger bron
Er hyn enillwyd concwest hardd,
Gan Ffrainc a'r deyrnas hon.

'Roedd claddu'r meirw'n orchwyl mawr,
A'i gwaed hyd lawr yn lli;

'Roedd pump o'r Rwssiaid am bob un
O Ffrainc a'n teyrnas ni;
'Roedd cyrff yn ddarnau'n wael eu gwedd
Yn gorwedd yn eu gwaed,
Ac yn eu mysg ôl carnau meirch,
Fu'n dryllio rhai tan draed.

Syr Charles Napier gaiff bob parch,
Dundas eu cyfarch cawn—
Fel pen-llynges-wyr Prydain Fawr,—
Swyddogion gwerthfawr iawn;
Lord Raglan, pen maes-lywydd tir,
Ni welir un o'i ail;
'Rol uno Ffrainc a Lloegr glir,
'Dyw Rwssiaid ond fel dail.

Ceir gwel'd rhieni 'n wylo'n hallt,
Am feibion gwychion wedd;
Rhai'n mhell o'n gwlad ar faes y gwaed,
Eu bwrw wnaed i'r bedd.
A llawer gwraig sydd am ei gwr,
Mewn cyflwr eithaf caeth,
A'i phlant ymddifaid yn wylo'n awr—
I'r Rhyfel mawr yr aeth.

Gweddiwn gyda'r rhai sy'n ol,
Yn unol oll un wedd,
Mae gobaith mab o ryfel medd—
'Does gobaith 'run o'r bedd;
Rhagluniaeth r'oth ar Nicholas glo
Nas gallo swno sen.
Teyrnased heddwch—nawdd ein Ior,
Ar dir a mor. Amen.

ABEL JONES,
(Bardd crwst.)

---

*Hugh Jones, Argraffydd, Llangollen.*